**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Jan Kelly / 01352 702301
janet.kelly@flintshire.gov.uk

At: Julia Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Teresa Carberry, Andrew Parkhurst a Antony Wren

**Aelodau Cyfetholedig:**
David Wynn Davies, Jacqueline Guest, Mark Morgan, Gill Murgatroyd
a Ian Papworth

Dydd Mawrth, 29 Awst 2023

Annwyl Gynghorydd

**RHYBUDD O GYFARFOD RHITHIOL**
**PWYLLGOR SAFONAU**
**DYDD LLUN, 4YDD MEDI, 2023 AM 6.30 PM**

*** Bydd y sesiwn hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael ei chynnal o 6.00pm tan 6.30pm**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democratiadd

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

| | |
|---|---|
| 1 | **YMDDIHEURIADAU** |

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

| | |
|---|---|
| 2 | **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)** |

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

| | |
|---|---|
| 3 | **COFNODION** (Tudalennau 5 - 10) |

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023.

| | |
|---|---|
| 4 | **GODDEFEBAU** (Tudalennau 11 - 12) |

**Pwrpas:** Derbyniwyd un gan y Cynghorydd Debbie Owen ac mae ynghlwm wrth yr agenda.

Bydd aelodau'r wasg / y cyhoedd yn gallu aros yn y cyfarfod tra bydd cais am ryddhad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor a bydd yn gallu dychwelyd i glywed penderfyniad y Pwyllgor. Fodd bynnag, o dan Baragraff 18C Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 bydd y Pwyllgor yn gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yn ystyried unrhyw gais am ryddhad.

**EITEMAU ER PENDERFYNIAD**

| | |
|---|---|
| 5 | **ADRODDIADAU O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL Â CHYNGHORAU TREF/CYMUNED** |

**Pwrpas:** Derbyn adroddiadau ar lafar gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor am eu hymweliadau i'r cynghorau canlynol:

- Cyngor Tref y Fflint (Jacqueline Guest 20.03.23)
- Cyngor Tref Shotton (Jacqueline Guest – 03.04.23)
- Cyngor Tref Queensferry (Jacqueline Guest 09.05.23)
- Cyngor Tref Penarlâg (Jacqueline Guest 10.07.23)

| | |
|---|---|
| 6 | **CANLYNIADAU'R AROLWG AR GYNHYRCHU CYLCHLYTHYRON CYNGHORWYR** (Tudalennau 13 - 20) |

**Pwrpas:** Cynhelir arolwg bob tymor y Cyngor, i weld a yw Aelodau angen/ eisiau defnyddio adnoddau'r Cyngor i gyhoeddi Newyddlenni ar gyfer eu Ward. Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu canlyniadau'r arolwg.

7 **EITEMAU AR AGENDA'R CYFARFOD CYSWLLT MOESEGOL NESAF** (Tudalennau 21 - 24)

**Pwrpas:** Gofyn i Aelodau awgrymu pynciau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf rhwng y Cadeirydd/Is-gadeirydd o'r Pwyllgor a'r Uwch Gynghorwyr.

**EITEMAU ER GWYBODAETH**

8 **CYHOEDDIAD 'EIN CANFYDDIADAU' OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 25 - 38)

**Pwrpas:** Ystyried crynodeb o achosion oedd a wnelont â honiadau o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau ('y Cod'), fel y cyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)yn ei gyhoeddiad "Ein Canfyddiadau" ("Ein Canfyddiadau").

9 **TROSOLWG O GWYNION MOESEGOL** (Tudalennau 39 - 50)

**Pwrpas:** Bod y Pwyllgor yn nodi'r nifer a'r mathau o gwynion.

10 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 51 - 54)

**Pwrpas:** Er mwyn i'r Pwyllgor ystyried testunau i'w cynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***